Thema- Drysau

Ein Cwestiwn Mawr- Sut mae drysau yn adrodd stori yr ardal leol?

| | |
|---|---|
| **Iechyd a Lles**<br> | Ym maes Iechyd a Lles, bydd y plant yn trafod sut mae gwahanol leoedd yn gwneud iddynt deimlo. Byddant yn ystyried beth sy'n gwneud lle yn ddiogel, yn gyfforddus ac yn groesawgar, a pham mae rhai adeiladau'n bwysig i unigolion a chymunedau. Byddant yn datblygu eu sgiliau cydweithio, gwrando, rhannu syniadau a datrys problemau. Byddant hefyd yn dysgu am bwysigrwydd parchu gwahanol ddiwylliannau, credoau a thraddodiadau. Trwy weithgareddau corfforol, byddant yn archwilio sut mae grymoedd, fel gwthio a thynnu, yn effeithio arnynt hwy eu hunain ac ar wrthrychau.<br><br>Byddant yn trafod straeon a gweithgareddau sy'n ymwneud â phobl, lleoedd ac adeiladau. Bydd y plant yn dysgu geirfa newydd, yn mynegi eu teimladau a'u syniadau ac yn ysgrifennu disgrifiadau. Byddant hefyd yn ymarfer gwrando ar eraill, cymryd rhan mewn trafodaethau a chyflwyno eu syniadau i'r dosbarth.<br><br>Bydd y plant yn defnyddio dyfeisiau i dynnu lluniau, recordio arsylwadau a chreu cyflwyniadau neu bosteri ac yn dysgu sut i ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel ac yn gyfrifol. |
| **Dyniaethau**<br> | Ym maes y Dyniaethau, bydd y plant yn archwilio adeiladau, mannau arbennig, amgylcheddau a thirweddau yng Nghymru ac o amgylch y byd. Byddant yn dysgu disgrifio pam mae gwahanol leoedd, amgylcheddau a thirweddau yn bwysig i wahanol bobl ac am wahanol resymau. Byddant yn ystyried sut mae adeiladau a lleoedd yn adlewyrchu hanes, crefydd a gwerthoedd cymunedau, ac yn trafod pam mae rhai mannau'n arbennig neu'n bwysig i bobl.<br>Bydd y plant yn dysgu adnabod a disgrifio nodweddion ffisegol penodol lleoedd, amgylcheddau a thirweddau yn eu hardal leol, yng Nghymru ac yn y byd ehangach. Byddant yn edrych ar nodweddion arbennig yn ein ardal leol ac yn ystyried sut a pham y gall y rhain newid dros amser. Byddant hefyd yn cymharu gwahanol leoedd ac amgylcheddau, gan ddisgrifio sut a ble maent yn debyg i'w gilydd a sut maent yn wahanol.<br>Byddant yn defnyddio mapiau, ffotograffau ac adnoddau digidol i leoli ac archwilio gwahanol leoedd, adeiladau a thirweddau. Byddant yn darllen gwybodaeth a straeon, gofyn ac ateb cwestiynau ac ysgrifennu disgrifiadau. Byddant yn mesur |

| | |
|---|---|
| | pellteroedd a defnyddio cyfarwyddiadau a graddfa syml ar fapiau. Byddant hefyd yn defnyddio mapiau ar-lein neu fapiau digidol ac yn codio. |
| **Gwyddoniaeth a Thechnoleg**  | Ym maes Gwyddoniaeth a Thechnoleg, bydd y plant yn dysgu am rymoedd ac egni. Byddant yn archwilio sut mae grymoedd yn gallu newid symudiad, siâp neu safle gwrthrych. Byddant yn edrych ar enghreifftiau o wthio a thynnu yn eu bywydau bob dydd, gan gynnwys sut mae drysau, dolenni a cholfachau'n gweithio. Byddant hefyd yn dysgu am egni a sut mae'n gysylltiedig â symudiad, golau, gwres a sain. Trwy ddefnyddio meddylfryd dylunio a pheirianneg, byddant yn cynllunio, adeiladu, profi a gwella modelau o ddrysau neu adeiladau.<br><br>Byddant yn darllen cyfarwyddiadau, dilyn camau mewn trefn, cofnodi arsylwadau ac esbonio sut mae gwrthrychau yn gweithio. Bydd y plant yn defnyddio geirfa wyddonol, fel *grym, egni, gwthio, tynnu, symud a phatrwm*. Byddant yn mesur, cymharu, cyfrif a chofnodi canlyniadau profion. Bydd y plant hefyd yn creu tablau neu graffiau syml. Byddant yn ddefnyddio camerâu, rhaglenni codio syml ac offer digidol i gynllunio a chyflwyno eu gwaith. |
| **Celfyddydau Mynegiannol**  | Ym maes y Celfyddydau Mynegiannol, bydd y plant yn defnyddio adeiladau a drysau fel ysbrydoliaeth ar gyfer eu gwaith creadigol. Byddant yn arsylwi ac yn archwilio siapiau, lliwiau, patrymau a gweadau, gan arbrofi gyda gwahanol dechnegau, dulliau, deunyddiau, prosesau, offer a thechnolegau creadigol. Byddant yn creu darluniau, modelau, collageau a cherfluniau, ac yn dechrau dewis y deunyddiau a'r technegau mwyaf addas ar gyfer eu syniadau. Byddant hefyd yn dylunio eu gwaith eu hunain ac yn cydweithio ag eraill i ddatblygu a mireinio syniadau creadigol.<br><br>Bydd y plant yn archwilio pam a sut mae gwaith creadigol yn cael ei wneud drwy ofyn cwestiynau a datblygu eu hatebion eu hunain. Byddant yn edrych ar waith artistiaid o Gymru a thu hwnt, ac yn disgrifio sut mae eu gwaith yn cyfleu gwahanol |

| | |
|---|---|
| | teimladau, emosiynau a syniadau. Byddant yn cymharu eu gwaith creadigol eu hunain â gwaith pobl eraill, gan ystyried gwaith o wahanol leoedd a chyfnodau. Gydag arweiniad, byddant yn trafod sut mae hwyliau, emosiynau a syniadau'n cael eu cyfleu yn eu gwaith eu hunain ac yng ngwaith artistiaid eraill.<br><br>Bydd y plant yn defnyddio drama, cerddoriaeth a symudiad i fynegi syniadau am leoedd, pobl, grymoedd ac egni. Byddant yn dysgu cyfleu eu syniadau, eu teimladau a'u hatgofion ar gyfer cynulleidfa ac at wahanol ddibenion.<br><br>Byddant yn disgrifio eu gwaith, egluro eu syniadau, gofyn cwestiynau a thrafod gwaith artistiaid eraill. Byddant yn adnabod siapiau 2D a 3D, creu patrymau, defnyddio cymesuredd a mesur modelau. Bydd y plant hefyd yn tynnu lluniau o'u gwaith, arbed Gwaith digidol, defnyddio rhaglenni celf a dylunio a creu animeiddiadau byr. |

**Cyd-destun Lleol:**

Mae'r thema hon yn gwahodd dysgwyr i agor drysau i ddarganfod y byd o'u cwmpas. Trwy archwilio adeiladau a drysau lleol, a'u cymharu â drysau ac adeiladau o rannau eraill o'r byd, byddant yn datblygu dealltwriaeth o sut mae pobl yn defnyddio ac yn gwerthfawrogi mannau arbennig. Byddant yn ystyried sut mae adeiladau'n adrodd straeon am gymunedau, hanes, diwylliant a chredoau, gan ddatblygu ymdeimlad o berthyn i'w hardal leol ac ymwybyddiaeth o'r byd ehangach.

Thema- Drysau
Ein Cwestiwn Mawr- Sut mae drysau yn adrodd stori yr ardal leol?